Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.*
*We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.*

**Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr / Chief Executive's Directorate**
Deialu uniongyrchol / Direct line /: 01656 643148 / 643694 / 643513
Gofynnwch am / Ask for: Democratic Services/ Gwasanaethau Democrataidd

Ein cyf / Our ref:
Eich cyf / Your ref:

**Dyddiad/Date:** Dydd Iau, 11 Ebrill 2024

Annwyl Cynghorydd,

**CYNGOR**

Cynhelir Cyfarfod Cyngor Hybrid yn Siambr y Cyngor Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB /o bell trwy Microsoft Teams ar **Dydd Mercher, 17 Ebrill 2024** am **16:00**.

**AGENDA**

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb
Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.

2. Datganiadau o fuddiant
Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.

3. Cymeradwyaeth Cofnodion — 5 - 16
I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 28/02/2024

4. Cyflwyniad i'r Cyngor gan Gynrychiolwyr BAVO — 17 - 18

5. I dderbyn cyhoeddiadau oddi wrth:
(i) Maer (neu'r person sy'n llywyddu)
(ii) Aelodau'r Cabinet
(iii) Prif Weithredwr

6. Derbyn cyhoeddiadau gan yr Arweinydd

7. Polisi Maint Cynghorau Tref a Chymuned Ebrill 2024 — 19 - 24

8. Rhaglen Moderneiddio Ysgolion - Ysgol Gyfun Bryntirion - Estyniad pedair ystafell ddosbarth, Gwaith Priffyrdd — 25 - 30

9. Cynllun Cyflawni'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2024-2025 — 31 - 60

10. Polisi'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd 61 - 78

11. Adroddiad Gwybodaeth i'w Nodi 79 - 96

12. Derbyn y Cwestiynau canlynol gan:
**Cwestiwn gan y Cynghorydd T Thomas i'r Aelod Cabinet – Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd**

Pa gynnydd y mae'r Aelod Cabinet wedi'i wneud o ran gwella parciau chwarae plant yn y Fwrdeistref Sirol?

**Cwestiwn gan y Cynghorydd S Bletsoe i'r Aelod Cabinet - Tai, Cynllunio ac Adfywio**

Cyhoeddwyd Uwchgynllun Adfywio Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr ym mis Rhagfyr 2021, gan ddatgan ei fod yn "nodi cyfres o brosiectau uchelgeisiol y gellir eu cyflawni" er mwyn gwireddu'r weledigaeth gyffredinol ac adfywio canol tref Pen-y-bont ar Ogwr dros y 10 mlynedd nesaf.

Mae 28 mis wedi mynd heibio ers cyhoeddi Uwchgynllun Adfywio Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n rhoi manylion nifer o brosiectau tymor byr, tymor canolig a thymor hir cyraeddadwy y mae'n gobeithio eu cyflawni.

Ym marn yr Aelod Cabinet, pa rai o'r prosiectau hyn fydd yn cael eu cyflawni yn ystod cyfnod 10 mlynedd yr uwchgynllun?

13. Hysbysiad o Gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd
**Cynnig i'w Drafod: Tuag at system fwy cynaliadwy a gwydn o gyllido llywodraeth leol**

Mae'r Cyngor yn:

- Nodi bod methiant cyson, sylweddol wedi bod i gyllido llywodraeth leol yn gywir;
- Nodi bod sefyllfa cyllideb Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn y dyfodol yn heriol, ac y bydd gostyngiadau sylweddol pellach i'r gyllideb yn debygol iawn dros gyfnod y strategaeth ariannol tymor canolig, a fydd yn cael effaith negyddol ar ddarpariaeth gwasanaethau craidd a llesiant ein trigolion;
- Galw ar y llywodraeth ganolog i weithredu fformiwla gyllido decach a symlach sy'n rhoi diwedd ar y gyfres o setliadau un flwyddyn ad hoc a cheisiadau cystadleuol wedi'u clustnodi;
- Galw ar y llywodraeth ganolog i ystyried dichonoldeb symud tuag at system fwy cynaliadwy a gwydn o gyllido llywodraeth leol, sy'n:

(1) ailddosbarthu cyllid rhwng awdurdodau lleol yn fwy unol ag asesiad o anghenion; ac
(2) yn neilltuo canran osodedig o refeniw treth genedlaethol i awdurdodau lleol.

- Galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu Comisiwn sefydlog ffurfiol i weithredu fel cyswllt rhwng llywodraeth leol a llywodraeth ganolog er mwyn ystyried unrhyw bolisïau sy'n datblygu gan y llywodraeth ganolog a fyddai'n effeithio ar alluoedd llywodraeth leol, a sicrhau bod yr holl ymrwymiadau deddfwriaethol cenedlaethol yn cael eu hariannu'n llawn.

Rhybudd o Gynnig:

Nodweddion Gwarchodedig ar gyfer Pobl â Phrofiad o fod mewn Gofal. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cydnabod bod y Pwyllgor Addysg, Plant a Phobl Ifanc a sefydlwyd gan Senedd Cymru wedi argymell y dylai profiad o fod mewn gofal ddod yn nodwedd warchodedig yn neddfwriaeth y DU. Mae hefyd wedi llofnodi'r Siarter Rhianta Corfforaethol yng Nghymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru, sy'n gwahodd sefydliadau eraill y sector cyhoeddus i ddod yn Rhiant Corfforaethol i blant a phobl ifanc yng Nghymru sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Mae'r cynnig hwn yn ymestyn ymrwymiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i blant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal ymhellach, i gynnwys yr egwyddorion, blaenoriaethau ac addewidion a geir yn Strategaeth Rhianta Corfforaethol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r cyngor hwn yn cydnabod bod:

• Pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn wynebu rhwystrau sylweddol sy'n effeithio arnynt drwy gydol eu hoes;
• Er bod llawer o bobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn gallu bod yn gadarn, yn rhy aml ni fydd cymdeithas yn ystyried eu hanghenion;
• Bydd pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn aml yn wynebu gwahaniaethu a stigma o ran cartrefu, iechyd, addysg, perthnasoedd, cyflogaeth a'r system cyfiawnder troseddol;
• Mae'n bosib y bydd pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn gweld bod y cymorth yn anghyson mewn gwahanol ardaloedd daearyddol;
• Fel rhieni corfforaethol, mae gan gynghorwyr gydgyfrifoldeb i ddarparu'r gofal a mesurau diogelu gorau posib i'r plant sydd dan ein gofal ni fel awdurdod;
• Fel rhieni corfforaethol, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ymrwymo i weithredu fel mentoriaid, gan wrando ar leisiau plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac ystyried eu hanghenion yn unrhyw agwedd ar waith y cyngor;
• Bydd Cynghorwyr yn pledio achos y plant dan ein gofal ac yn herio'r ymagwedd negyddol a'r rhagfarn sy'n bodoli ym mhob elfen o gymdeithas; Felly, mae'r Cyngor hwn wedi penderfynu:
• Ei fod yn cydnabod bod pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn grŵp sy'n debygol o wynebu gwahaniaethu;
• Ei fod yn cydnabod bod gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ddyletswydd i sicrhau bod anghenion pobl dan anfantais yn gwbl ganolog i'r broses benderfynu, drwy gyd-gynhyrchu a chydweithio;
• Y dylai penderfyniadau, gwasanaethau a pholisïau sy'n cael eu llunio a'u mabwysiadu gan y Cyngor ar gyfer y dyfodol gael eu hasesu drwy Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb er mwyn ystyried effaith newidiadau ar bobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal, ochr yn ochr ag unigolion eraill sydd â nodwedd warchodedig swyddogol.
• Bod y Cyngor, wrth gyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, yn cynnwys profiad o fod mewn gofal wrth gyhoeddi ac adolygu Amcanion Cydraddoldeb ac wrth gyhoeddi gwybodaeth yn flynyddol ynghylch pobl sydd â nodwedd warchodedig mewn gwasanaethau a chyflogaeth.
• Annog pob corff arall i drin profiad o fod mewn gofal fel nodwedd warchodedig nes i hynny gael ei gyflwyno drwy ddeddfwriaeth.
• Y bydd y cyngor yn parhau i fynd ati i chwilio am leisiau pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal, a gwrando ar y lleisiau hynny, pan fydd yn datblygu polisïau newydd sy'n seiliedig ar eu barn.

14. <u>Materion Brys</u>
I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

Nodyn: Bydd hwn yn gyfarfod Hybrid a bydd Aelodau a Swyddogion mynychu trwy Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr / o bell Trwy Timau Microsoft. Bydd y cyfarfod cael ei recordio i'w drosglwyddo drwy wefan y Cyngor. Os oes gennych unrhyw gwestiwn am hyn, cysylltwch â cabinet_committee@bridgend.gov.uk neu ffoniwch 01656 643148 / 643694 / 643513 / 643696

Yn ddiffuant
**K Watson**
Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol

**Dosbarthiad:**

| Cynghorwyr | Cynghorwyr | Cynghorwyr |
|---|---|---|
| S Aspey | J Gebbie | RL Penhale-Thomas |
| H T Bennett | W R Goode | J E Pratt |
| A R Berrow | RM Granville | R J Smith |
| F D Bletsoe | H Griffiths | JC Spanswick |
| S J Bletsoe | S J Griffiths | I M Spiller |
| JPD Blundell | G Haines | T Thomas |
| E L P Caparros | D T Harrison | JH Tildesley MBE |
| N Clarke | M L Hughes | G Walter |
| RJ Collins | D M Hughes | A Wathan |
| HJ David | RM James | A Williams |
| C Davies | P W Jenkins | AJ Williams |
| C L C Davies | M R John | HM Williams |
| P Davies | M Jones | I Williams |
| S Easterbrook | MJ Kearn | MJ Williams |
| M J Evans | W J Kendall | R Williams |
| N Farr | M Lewis | E D Winstanley |
| P Ford | J Llewellyn-Hopkins | T Wood |